

Croeso i'r Adran a'r Ysbyty

Mae'r daflen hon yn egluro'r hyn y gellir ei ddisgwyl pan fyddwch chi'n dod i mewn i gael llawdriniaeth/ triniaeth. Byddwch chi'n cael eich llawdriniaeth/ triniaeth fel achos dydd (felly, byddwch chi'n mynd adref yr un diwrnod).

Cyn eich apwyntiad

Rhaid i chi drefnu i rywun eich gyrru adref ar ôl eich llawdriniaeth gydag oedolyn cyfrifol a all fod yn bwynt cyswllt am 24 awr ar ôl eich triniaeth.

Rhaid bod gennych ffôn yn y cartref rhag ofn i chi gael unrhyw broblem ar ôl i chi gael eich rhyddhau.

Os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun, bydd yn rhaid i chi gael rhywun i'ch helpu am y 24 awr gyntaf.

Os ydych chi'n teimlo'n sâl y diwrnod cyn eich llawfeddygaeth, cofiwch gysylltu â'n hadran i gael cyngor cyn i chi ddod i mewn.

Cofiwch ddod â rhestr o unrhyw dabledi/ feddyginiaethau yr ydych chi'n eu cymryd ar y pryd.

Cofiwch gymryd eich tabledi/ meddyginiaethau arferol heblaw bod rhywun yn dweud yn wahanol ar ddiwrnod eich llawfeddygaeth.

Cofiwch ddweud wrthym os ydych chi'n cymryd Warfarin neu deneuwyr gwaed eraill cyn i chi ddod i mewn.

Cofiwch wneud yn siŵr eich bod wedi cael rhywbeth i'w fwyta a'i yfed cyn i chi ddod.

Peidiwch â gwisgo gemwaith na cholur wyneb.

Yn ystod eich apwyntiad

Bydd y llawfeddyg yn egluro'r llawdriniaeth i chi ac yn gwirio eich bod yn deall cyn arwyddo'r ffurflen gydsynio.

Byddwch chi'n cael amser i ofyn unrhyw gwestiynau.

Mae'n bosibl y byddan nhw'n gofyn i chi newid i w'n ysbyty.

Bydd y llawfeddyg yn rhoi rhai pigiadau i sicrhau bod y man yn ddideimlad cyn dechrau ar eich llawdriniaeth.

Byddwch chi'n effro drwy gydol eich llawfeddygaeth

Ar ôl eich llawfeddygaeth

Bydd y nyrs yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar i chi cyn i chi fynd adref.

Byddwch chi'n cael apwyntiadau i dynnu unrhyw bwythau/ glipiau/ rwymynnau a'ch canlyniadau.

Dalier Sylw: Mewn rhai achosion, gofynnir i gleifion ddychwelyd i'r clinig i fonitro sut mae'r clwyf yn gwella am ychydig wythnosau.

Os bydd gennych unrhyw broblem, gallwch ffonio'r rhif canlynol:

01633 238372 rhwng yr oriau 0900-1700